# Troseddau y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt
*22/08/2012*

**Cais am Wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 8 Awst, pan wnaethoch holi am,

*Yr holl droseddau y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt ers 1 Ionawr 2011 a ddigwyddodd ar ystâd y Cynulliad Cenedlaethol. A fyddech cystal â chynnwys dyddiad, lleoliad a natur y drosedd. Os achos o ddwyn oedd y drosedd, a fyddech cystal â nodi'r math o eitem a gafodd ei dwyn a'i gwerth.*

Mae'r wybodaeth yn y tabl isod:

| Dyddiad | Trosedd | Lleoliad |
|---|---|---|
| Chwefror 2011 | Dwyn swm bach o arian o bwrs a oedd wedi'i adael | Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Awst 2011 | Dwyn beic | Pierhead Street |
| Hydref 2011 | Dwyn beic | Pierhead Street |
| Hydref 2011 | Dwyn ffôn symudol | Pierhead Street |
| Mehefin 2012 | Dwyn beic | Pierhead Street |

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm .
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8393
E-bost/Email:Alison.Rutherford@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn credu nad wyf wedi cymhwyso'r Cod yn briodol neu heb ddilyn y deddfau perthnasol, gallwch wneud cwyn ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd. Mae manylion egwyddorion cwynion y Cynulliad wedi'u gosod allan yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar y Fewnrwyd yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Cysylltwch â mi oes hoffech gopi wedi'i argraffu.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**